



27 Ebrill 2018

Annwyl

ATISN 12134

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 28 Chwefror ynghylch

- yr holl ohebiaeth ers 1af Tachwedd 2017 rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7); a
- yr holl ohebiaeth ers 1af Tachwedd 2017 rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch gosod Safonau'r Gymraeg ar gyrff ym maes iechyd;

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod modd cael mynediad at rywfaent o'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani drwy ffyrdd eraill o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl atodedig. Ni chedwir bellach fersiynau drafft o ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi.

Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i hesemptio o dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rwyf wedi cynnwys isod fy rhesymau dros beidio â rhyddhau'r wybodaeth.

Mae'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani nad yw'n rhan o'r esemptiadau hyn wedi'i hatodi yn nogfennau 2 i 67.

- yr holl ohebiaeth ers 1af Tachwedd 2017 (a) rhwng swyddogion Uned y Gymraeg; (b) rhwng swyddogion Uned y Gymraeg a Gweinidogion; a (c) rhwng swyddogion Uned y Gymraeg a chyfreithwyr mewnol y Llywodraeth (ch) rhwng swyddogion Uned y Gymraeg a chyfreithwyr allanol ynghylch gosod Safonau'r Gymraeg ar gyrff ym maes iechyd;.
- yr holl ohebiaeth ers 1af Tachwedd 2017 rhwng (a) swyddogion Uned y Gymraeg; (b) swyddogion Uned y Gymraeg a Gweinidogion; a (c) swyddogion Uned y Gymraeg a chyfreithwyr mewnol ac allanol ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7);

Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn (a) a (b) wedi'i chynnwys yn nogfennau 2 i 67.

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn (c) a (ch) gohebiaeth â chyfreithwyr mewnol, wedi'i heithrio o dan adran 42 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rwyf wedi cynnwys isod fy rhesymau dros beidio â rhyddhau'r wybodaeth. Nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth ynghylch gohebiaeth â chyfreithwyr allanol y gofynnwyd amdani yn (c) a (ch).

- copi o bob e-bost a gohebiaeth arall, ynghyd â chopi o unrhyw atodiadau i'r e-byst hynny neu ohebiaeth honno, anfonwyd ers 1af Tachwedd 2017 gan swyddogion Llywodraeth Cymru at swyddfa gyflwyno Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch (a) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) a/neu (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym maes iechyd;

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i heithrio o dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rwyf wedi cynnwys isod fy rhesymau dros beidio â rhyddhau'r wybodaeth. Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani nad yw'n rhan o'r esemptiad hwn wedi'i hatodi yn nogfennau 1, 1a ac 1b.

- pwnc, dyddiad ac amser anfon, ac enw pob atodiad i, pob e-bost a gohebiaeth arall anfonwyd ers 1af Tachwedd 2017 gan swyddogion Llywodraeth Cymru at swyddfa gyflwyno Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch (a) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) a/neu (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym maes iechyd;

Ni chedwir unrhyw wybodaeth arall heblaw'r dogfennau 1, 1a ac 1b.

Amgaeir copi o'r wybodaeth rwyf wedi penderfynu ei rhyddhau.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire

SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Eleri Davies
Uned y Gymraeg

TABL: Gwybodaeth na chaiff ei rhyddhau o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Rhif y ddogfen	Lleoliad y dogfennau
1	Mae gweddill yr atodiadau eisoes yn gyhoeddus http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document&startDt=27/02/2018&endDt=27/02/2018
9	Mae'r atodiadau eisoes yn gyhoeddus http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document&startDt=27/02/2018&endDt=27/02/2018 https://beta.llyw.cymru/safonaur-gymraeg-gwella-gwasanaethaur-sector-iechyd-i-siaradwyr-cymraeg
15a	Mae gweddill yr atodiadau eisoes yn gyhoeddus, a defnyddiwyd y Rheoliadau fel sail ar gyfer ymgynghoriad https://beta.llyw.cymru/safonaur-gymraeg-gwella-gwasanaethaur-sector-iechyd-i-siaradwyr-cymraeg Y Rheoliadau a osodwyd http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document&startDt=27/02/2018&endDt=27/02/2018
30	Llythyr http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=445&MId=4383&Ver=4
33, 35, 36	Datganiad ysgrifenedig http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/wlsu/?skip=1&lang=cy

- 37 Gweler dogfen 57c
- 46 Ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad
<https://beta.llyw.cymru/safonaur-gymraeg-gwella-gwasanaethaur-sector-iechyd-i-siaradwyr-cymraeg>
- 47 Datganiad i'r wasg
<http://gov.wales/newsroom/welshlanguage/2018/draft-welsh-language-standards-for-the-health-sector-laid/?lang=cy>
- 51 atodiadau: gweler dogfen 28a a'r Rheoliadau a osodwyd
- 52 atodiadau: gweler dogfennau 15a
- 56 <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document&startDt=27/02/2018&endDt=27/02/2018>
- 57 Dogfennau a osodwyd
<http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2015/previous-administration/2015/updatewelshlangstandards/?lang=cy>
- Ymateb i'r ymgynghoriad
<http://gov.wales/topics/welshlanguage/response-to-welsh-language-standards-investigation/?lang=cy>
- 58 gweler hefyd dogfennau 9a a 15a
- 65 Rydych wedi derbyn y llythyr eisoes
- 66 Rydych wedi derbyn y llythyr eisoes
- 67 <http://senedd.assembly.wales/documents/g4502/Public%20reports%20pack%20Tuesday%2013-Mar-2018%2009.00%20Petitions%20Committee.pdf?T=10>

Adran 40 - Data personol

Mae adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi esemptiad o'r hawl i wybod os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani'n wybodaeth bersonol a ddiogelir gan Ddeddf Diogelu Data 1998. Caiff data personol eu diffinio yn Adran 1(1) o'r Ddeddf Diogelu Data fel a ganlyn:

"ystyr "data personol" yw data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r data hynny; neu o'r data hynny a gwybodaeth arall sydd ym meddiant, neu sy'n debygol o ddod i feddiant, y rheolwr data".

O dan adran 40(2) o'r Ddeddf Diogelu Data, mae data personol yn esempt rhag eu rhyddhau os bydd eu datgelu'n torri un o'r egwyddorion diogelu data. Rydym yn ystyried mai'r egwyddor gyntaf yw'r egwyddor fwyaf perthnasol yn yr achos hwn.

Mae egwyddor gyntaf diogelu data yn datgan:

Rhaid prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon ac, yn benodol, ni chânt eu prosesu oni bai —

(a) bod o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 2 yn cael ei fodloni, a (b) yn achos gwybodaeth bersonol sensitif, bod o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 3 hefyd yn cael ei fodloni.

Rydym o'r farn bod yr wybodaeth a ddaliwyd yn ôl mewn perthynas ag enwau a manylion cyswllt yn dod o fewn y disgrifiad o ddata personol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Diogelu Data ac y byddai ei datgelu'n torri egwyddor gyntaf diogelu data. Mae dwy ran i egwyddor gyntaf diogelu data:

1. Rhaid prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon.
2. Ni chaiff data personol eu prosesu oni bai bod o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 2 o'r Ddeddf Diogelu Data yn cael ei fodloni.

Mae canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Gwybodaeth bersonol (adran 40 a rheoliad 13) f 1.4) yn datgan:

Os na fyddai datgeliad yn deg, yna mae'r wybodaeth yn esempt rhag cael ei datgelu.

Cadarnhawyd y dull gweithredu hwn gan y Llys Apêl yn achos Deborah Clark yn erbyn y Comisiynydd Gwybodaeth a Chyngor Rhanbarthol Dwyrain Swydd Hertford lle y daliwyd:

“The first data protection principle entails a consideration of whether it would be fair to disclose the personal data in all the circumstances. The Commissioner determined that it would not be fair to disclose the requested information and thus the first data protection principle would be breached. There was no need in the present case therefore to consider whether any other Schedule 2 condition or conditions could be met because even if such conditions could be established, it would still not be possible to disclose the personal data without breaching the DPA”. (paragraff 63).

Gweler isod ein dadansoddiad o brif ystyriaethau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth asesu 'tegwch', fel y mae'r Canllawiau yn eu nodi.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth a ddaliwyd yn ôl o dan yr esemptiad hwn yn ymwneud â data gweision sifil yn drafod busnes arferol. Yn y cyd-destun hwn, roedd y gweision sifil mewn cysylltiad fel rhan o'u busnes arferol. Wrth wneud hynny, ni fyddai gan yr unigolion dan sylw unrhyw ddisgwyliad y byddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei gwneud yn gyhoeddus.

Gan hynny, rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn annheg ac felly'n torri egwyddor gyntaf diogelu data.

Am y rheswm hwnnw, credaf y dylai'r wybodaeth gael ei dal yn ôl dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hwn yn eithriad absoliwt ac nid yw'n amodol ar brofion lles y cyhoedd.

Adran 42 Braint Broffesiynol Gyfreithiol

Mae Adran 42 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn datgan:

1) Information in respect of which a claim to legal professional privilege or, in Scotland, to confidentiality of communications could be maintained in legal proceedings is exempt information.

Mae braint proffesiynol gyfreithiol yn cwmpasu cyfathrebiadau rhwng cyfreithwyr a'u cleientiaid at ddibenion cael cyngor cyfreithiol, neu ddogfennau a grëwyd gan neu ar gyfer cyfreithwyr ar gyfer ymgyfreitha. Roedd yr wybodaeth dan sylw yn gyngor a ddarparwyd gan wasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru a chredwn fod yr wybodaeth hon yn destun braint broffesiynol gyfreithiol.

Mae esemptiad adran 42 yn esemptiad amodol, sy'n golygu ei fod yn ddarostyngedig i brawf lles y cyhoedd. Nodwyd yn achos Bellamy yn erbyn y Comisiynydd Gwybodaeth a'r DTI [EA/2005/0023] fod budd i'r cyhoedd o roi mynediad i awdurdodau cyhoeddus at gyngor a oedd yn destun braint broffesiynol gyfreithiol. Wrth sôn am fraith broffesiynol gyfreithiol, gwnaeth y tribiwnlys ddatgan:

"there is a strong element of public interest inbuilt into the privilege itself. At least equally strong countervailing considerations would need to be adduced to override that inbuilt interest....it is important that public authorities be allowed to conduct a free exchange of views as to their legal rights and obligations with those advising them without fear of intrusion, save in the most clear case...".

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bendant ei bod yn hollbwysig cynnal braint broffesiynol gyfreithiol ac, yn absenoldeb ystyriaethau gwrthbwysol sydd yr un mor gryf o leiaf, y byddai unrhyw ymgais i danseilio egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol yn arwain at ragfarn sylweddol.

Mae angen i gynghorwyr cyfreithiol allu cyflwyno'r darlun llawn i'w cleient, sy'n cynnwys dadleuon o blaid casgliadau terfynol ac unrhyw wrth-ddadleuon perthnasol. Dyma yw diben y fraint broffesiynol gyfreithiol sydd wedi hen ennill ei blwyf.

Mae natur cyngor cyfreithiol yn golygu ei fod yn aml yn nodi'r dadleuon posibl o blaid ac yn erbyn safbwynt penodol. Os yw'r rheini sy'n derbyn neu'n darparu cyngor cyfreithiol yn credu ei fod yn debygol y byddai'r cyngor cyfreithiol hwnnw'n cael ei gyhoeddi, yn enwedig mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth, mae'n annhebygol y byddai cyngor cynhwysfawr yn cael ei gomisiynu neu ei ddarparu. Byddai hyn yn achosi niwed sylweddol i ansawdd penderfyniadau gan na fyddent yn seiliedig ar wybodaeth lawn. Byddai hefyd yn tanseilio gallu cynghorwyr cyfreithiol a'u cleientiaid i ddibynnu'n hyderus ar y diogelwch a geir drwy egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol. Hefyd, mae'n bosibl iawn y gallai datgelu cyngor cyfreithiol amharu ar allu'r llywodraeth i amddiffyn ei buddiannau cyfreithiol - a hynny'n uniongyrchol drwy ei gwneud yn bosibl er yn annheg i herio ei safbwynt cyfreithiol, ac yn anuniongyrchol drwy ei gwneud yn anoddach iddi ddibynnu ar y cyngor ac a yw wedi'i ystyried yn llawn a'i gyflwyno heb ofn neu ffafriaeth.

O bwysu a mesur y dadleuon o blaid ac yn erbyn rhyddhau'r wybodaeth, rydym yn ystyried bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gryfach na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i dal yn ôl o dan adran 42.